# Llythrennedd & Natur

GWOBR JOHN MUIR

*Ardaloedd* gwyllt:
DARGANFYDDWCH
ARCHWILIWCH
GWARCHODWCH
RHANNWCH


dyfrgi

*dyfrgi*

Daw'r dyfrgi at y dŵr heb oedi – a llithro'n
llyfn o'r llwyni i hollti'r afon, hollti'r llyn.

Ymsymud wna'n ystwyth nes dwyn dy chwyth
a churiad dy galon – ond weli di fyth
fwy na chrych a chysgod a chengl-swigen chwim;
bydd y dyfrgi dan y dŵr yn dangos dim.

Fiw i ti holi, mae'r dyfrgi 'di diflannu,
â cherrynt iddo'n chwarel.
Hwn yw glöwr arian y pyllau glas
sy'n troi'r dyfroedd tu fewn tu fas.

Rasio, plymio, bolltio, troelli,
sglefrio, gwibio, lluchio, corddi,
mynd amdani – dyna'r dyfrgi!

Glan yr afon, dyma'r fan
i'r sawl a fyn fod yn ddyfrgi;
tyn dy groen oddi amdanat
ac arllwys dy enaid

I mewn i'r dŵr ... dos, dos,
mentra heb oedi,
dilyn y dyfrgi!

shimmering twister?

"Mae iaith wedi ei blethu yn ddwfn gyda'n perthynas gyda natur a thirwedd: enwau ar fap, enwau rhywiogaethau, cyffredin a phrin, sydd yn rhan o'n bywydau." Robert Macfarlane

## Beth yw llythrennedd?

Yn draddodiadol, golyga llythrennedd y gallu i ysgrifennu a darllen. Mewn gwirionedd, mae'n golygu llawer mwy na hynny; ein gallu i gyfathrebu, gan gynnwys siarad a gwrando. Mae'r gallu i ddefnyddio iaith yn effeithiol yn ganolog ar gyfer datblygu a mynegi emosiwn, ein meddyliau, ein dysgu, ein lles a'n cysyniad o unigolyddiaeth. Mae sgiliau llythrennedd o bwysigrwydd cymdeithasol, emosiynol ac economaidd i bob unigolyn yn ogystal a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Yng nghyd destun addysg, cydnabyddir llythrennedd fel sylfaen allweddol af gyfer dysgu.
Mae'n sylfaenol i bob maes addysg ffurfiol gan ei fod yn aml yn datgloi mynediad i'r cwricwlwm ehangach. Mae bod yn llythrennog yn cynyddu cyfleoedd ym mhob agwedd ar fywyd, gan osod sylfeini ar gyfer dysgu gydol oes, cyflogaeth a rhyngweithio cymdeithasol.

"Llythrennedd yw caru bywyd gan ei fynegu mewn ffyrdd gwahanol." Juliet Robertson, Creative Star

# Llythrennedd, Natur a Gwobr John Muir

Mae yna gyfleoedd ar gyfer darllen ac ysgrifennu mewn mannau gwyllt, boed hynny mewn lleoliadau gwahanol neu drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau naturiol fel cerrig, tywod, mwd ac ati. Mae'r byd naturiol yn cynnig ysbrydoliaeth a symbyliad. Mae'n darparu profiadau cyfoethog, amlsynhwyraidd a all fod yn sbardun ar gyfer ysgrifennu creadigol. Gall dysgu am y byd naturiol helpu i adeiladu geirfa a gwybodaeth newydd. Mae gwenud hyn yn y bywd go iawn yn help i gofio gwybodaeth. O dreulio amser unigol mewn mannau tawel i gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus mewn grŵp, mae yna gyfleoedd i brosesu a chyfleu meddyliau a theimladau.




Gall gweithgareddau ysgrifennu fel cynllunio ac adolygu, yn ogystal â myfyrdodau personol mewn dyddiaduron, cyfraniadau i arddangosfeydd yn yr ysgolion, barddoniaeth a rhannu ar-lein fod yn rhan o Wobr John Muir. Gall digwyddiadau dathlu, teithiau tywys o ardaloedd gwyllt, cyflwyniadau mewn gwasanaethau ysgol neu ddigwyddiadau cymunedol helpu i ddatblygu geirfa a hyder

LLyfr Cofnod Gwobr John Muir: ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Gaeleg yr Alban ac fel e-lyfr. Gall buddiolwyr gofnodi eu profiadau – ysgrifennu dynyniadau, storiau, caneuon, enwau pehau, barddoniaeth ...

Adolygu 4 her Gobr John Muir: cymorth i adlywerchu ar eu profiadau.

Nofel Delweddau John Muir Graphic: John Muir, Earth–Planet, Universe: wedi ei selio ar fywyd John Muir, Cyhoeddwyd gan Scottish Book Trust – lawrlwythwch fersiwn pdf gyda nodiadu I athrawon yn rhad ac am ddim.

Larbert High School: enghraifft o ysgrifennu creadigol gan flwyddyn ysgol cyfan.




"'Cwestiwn' dydwedodd yr athro Daearyddiaeth. 'Faint o eriau sydd yn disgrifio swn llosgi allwch chi feddwl amdanynt?' Ar ol pum munud roedd ganddo ni restr dda o eiriau."

Nid yw'r rhestr yn un gyflawn o bell ffordd-dim ond man cychwyn. Crëwch un eich hun! Gellir addasu llawer o adnoddau llythrennedd yn yr ystafell ddosbarth i'w defnyddio yn yr awyr agored. Mae gan yr adnoddau a restrir isod thema naturiol neu maent wedi'u haddasu'n benodol ar gyfer yr awyr agored.

'I'm a Teacher Get Me Outside of Here' Blog ardderchog Juliet Robertson, gyda phopeth o syniadau ar ysgrifennu, darllen, siarad a gwrando yn yr awyr agored, apps cyfeirio natur, blogiau llythrennedd ...

Dirty Teaching. Canllaw i ddechreuwyr ar ddysgu yn yr awyr agored gan Juliet Roberson. Awgrymiadau a thriciau i helpu athrawon i roi hwb i gychwyn neu i ddatblygu ymhellach eu hymarfer awyr agored

Literacy Ideas Outdoors with Curriculum for Excellence Syniadau ar gyfer oed cynradd.

Learning on your Doorstep: Ideas for developing writing outdoors 6 pwnc yn seiliedig ar archwilio yn yr awyr agored, cynlluniau gwersi, rhestrau adnoddau a chanlyniadau ysgrifennu.

Putting Walks into Words. Blog Linda Cracknell ar ddefnyddio profiadau awyr agored i gynhyrchu iaith a chreadigrwydd gyda dilyniant o risiau o ysbrydoliaeth yr awyr agored i gynhyrchu darn gorffenedig.

John Muir Education Pack Prosiect Cyswllt Gwledig-yn annog dealltwriaeth ddyfnach o waith ysgrifennu John Muir.

My Life with Nature Joseph Cornell – hunangofiant unigryw John Muir yn ei eiriau ei hun, yn byrlymu ag ysbryd ac antur.

Skyhawk Gill Lewis - Nodiadau addysgu ar lyfr am ofalu am Weilch a chymryd cyfrifoldeb am fyd natur.

The Wilderness Wars Jane Green -- stori antur sy'n dathlu'r awyr agored a'r rhyddid i'w archwilio.

## Cymraeg

Top 10 Welsh Writers – ysbrydolwyd gan yr iaith a thirwedd Cymrui

Geiriau Diflanedig- Mae'r llyfr hanfodol hwn yn dathlu iaith dan fygythiad a'r byd naturiol y mae'n ei ddisgrifio drwy 'swynganeuon' acrostig Robert Macfarlane, pob un yn dal hud a lledrith cynhenid eu pwnc ac yn annog ymgysylltiad adfywied gyda'r byd o'n cwmpas.

Llyfr natur Iolo Williams-Llyfr sy'n rhestri enwau a gwybodaeth ger lluniau o whahnol rywiogaeth ym myd Natur

Ar Drywydd y Dringwr- Braslun o hanes cynnar mynydda

Dysgu yn yr awyr agored o safon uchel - Mae Dysgu yn yr Awyr Agored o Safon Uchel i Gymru yn adeiladu ar y ddogfen Dysgu yn yr Awyr Agored o Safon Uchel a baratowyd gan OEAP a Chyngor Awyr Agored Lloegr, yn

gosod y ddogfen mewn cyd-destun penodol Cymreig; yn plethu arferion da Dysgu yn yr Awyr Agored gyda deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Barddoniaeth

Walking the John Muir Way Alec Finlay.

No Map Could Show Them Helen Mort casgliad am fynyddwyr benywaith cynnar.

Robinson Jeffers Bardd Americanaidd, wedi ddisgrifio fel icon yn y symudiad amgylcheddol.

Death of a Naturalist casgliad Seamus Heaney.

Favorite Flower Poems cagliad yr Ymddiredolaeth Genedlaethol, cerddi wedi'u hysbrydoli gan flodau.

Llythrennedd uwch – rhai llyfrau ffeithiol a ysbrydolwyd gan fyd natur ... ar gyfer dechreuwyr yn unig. Gwnewch eich rhestr eich hun ...!

Gossip from the Forest Sara Maitland – esbonio sut mae godwigoedd wedi ysbrydoli chwedlau

Strands Jean Sprackland – blwyddyn o ddarganfod ar y traeth.

Waterlog Roger Deakin – nofio trwy'r DU a dathluad am hud dwr.

The Wild Places Robert Macfarlane cyfres o deithiau i ardaloedd gwyllt sydd ar ol ym Mhrydain ac Iwerddon

Landmarks Robert Macfarlane - myfyrdod llawen ar eiriau, tirwedd a'r berthynas rhwng y ddau.

Fingers in the Sparkle Jar Cofadail Chris Packham o dyfu i fyny, bywyd, marwolaeth, cariad a natur.

Silent Spring Rachel Carson – yn amlygu dinistr bywyd gwyllt drwy ddefnyddio plaladdwyr yn eang.

A Sting in the Tale Dave Goulson - ymdrech un dyn i achub cacwn.